

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GORLLEWIN CYMRU

18 MAWRTH 2021, 10.00AM

Dros Teams

Cofnodion

Yn bresennol

Judith Hardisty (JH), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jill Paterson (JP), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jonathan Griffiths (JG), Cyngor Sir Penfro
Donna Pritchard (DP), Cyngor Sir Ceredigion
Joanne Silverthorne (JS) Cynrychiolydd Gofalwyr
Alun Williams, (CyngW), Cyngor Sir Ceredigion
Jonathan Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Hazel Lloyd-Lubran (HLL), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion
Y Cynghorydd Tessa Hodgson (CyngTH), Cyngor Sir Penfro
Anna Bird (AB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Hilary Jones (HJ), Cymdeithas Tai Bro Myrddin
Alan Thomas (AT), Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth
Jake Morgan (JM), Cyngor Sir Caerfyrddin
Ros Jervis (RJ), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Hefyd yn bresennol:

Martyn Palfreman (MJP), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Kim Neyland (KN), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru
Jessica Rees (JR), Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (Cofnodion)

Yn Bresennol ar gyfer Eitem 8:

Wendy Thomas (WT), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Bethan Roberts (BR), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sioned Thomas (ST), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Julie Annett's (JA), Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau

Y Cyng. Jane Tremlett (CyngT), Cyngor Sir Caerfyrddin
Estelle Hitchon (EH), Ymddiriedaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Malcolm Perrett (MP), Fforwm Gofal Cymru
Gaynor Toft (GT), Cyngor Sir Penfro
Cathryn Thomas (CT), Gofal Cymdeithasol Cymru
James Tyler (JT), Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth
Karen Chandler (KC), Pobl yn Gyntaf Sir Benfro
Sian Howys (SH), Cyngor Sir Ceredigion

Steve Moore, (SM) Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Maria Battle, (MB), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Gareth Morgans (GM), Cyngor Sir Caerfyrddin

1. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Maggie Allen, cyn Gynrychiolydd Gofalwyr ar y Bwrdd, wedi ymddiswyddo. Cofnododd JH ddiolch i Maggie am ei chyfraniad dros ei chyfnod yn y swydd. Dywedodd MJP y byddai'r broses bellach ar waith i recriwtio cynrychiolwyr gofalwyr ychwanegol i'r Bwrdd, gan geisio sicrhau bod cynrychiolaeth gyfartal ledled y rhanbarth a gwahanol grwpiau poblogaeth cyn belled ag y bo modd.

2. Ymddiheuriadau

Nodwyd y rhain.

3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2021 a chamau gweithredu

Daeth cais i law am ddiwygio'r frawddeg ar frig Tudalen 5 (Eitem 6, diweddariad y Gronfa Gofal Integredig) i ddarllen fel a ganlyn:

'Dywedodd KN fod adroddiad Chwarter 3 ar Gynllun Buddsoddi Refeniw 2020-21 wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i fod wedi'i **gymeradwyo**.'

Gyda'r gwelliant hwn, cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

Nodwyd cynnydd ar y camau gweithredu canlynol fel a ganlyn:

Cwrdd â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i drafod dull o gynnal Asesiad Poblogaeth

Dywedodd MJP fod disgwyl o hyd am ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Asesiadau Poblogaeth. Byddai cynllun amlinellol ar gyfer cynnal yr asesiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

Cadarnhau safbwynt rhanbarthol ynghylch cais Mabwysiadwr Cynnar ar gyfer Fframwaith EHES

Yn dilyn trafodaeth yn y Grŵp Plant a Phobl Ifanc rhanbarthol, gwnaed cyflwyniad i Lywodraeth Cymru i'r rhanbarth fabwysiadu'r Fframwaith yn gynnar. Roedd disgwyl adborth o hyd mewn perthynas â hyn.

Cymeradwyo a chyflwyno Cynlluniau Cyflenwi Gorllewin Cymru Iachach ar gyfer 2021-22 i Lywodraeth Cymru

Roedd cynlluniau wedi'u cyflwyno yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol Integredig (yn unol â'r ddirprwyaeth y cytunwyd arni gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol). Roedd disgwyl adborth ffurfiol o hyd.

Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am wariant y Gronfa Gofal Integredig o ran gofalwyr

Dywedodd KN fod dros £100,000 o anfonebau wedi'u cyflwyno yn dilyn y cyfarfod diwethaf ac roedd hyder y byddai gwariant llawn yn cael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Enwebiadau ar gyfer grŵp gorchwyl a gorffen i ddrafftio ymateb y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i ymgynghoriad Papur Gwyn

Roedd enwebiadau wedi dod i law ac roedd nifer o sgysiau wedi'u cynnal, gan lywio'r ymateb drafft a fyddai'n cael ei ystyried yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

Dywedodd MJP ymhellach fod y Gronfa Drawsnewid wedi derbyn cyngor y bydd 'Cronfa Graddio Trawsnewid' yn cael ei hariannu ymhellach a fydd yn cefnogi Rhyddhau i Adfer ac Asesu (Ilwybrau D2RA). Dyraniad Gorllewin Cymru oedd £774,000 i'w ddefnyddio dros y flwyddyn ariannol nesaf. Nodwyd bod angen cyflwyno cynigion ar gyfer y cyllid i Lywodraeth Cymru erbyn 9 Ebrill.

4. Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru: Llywodraethu Rhanbarthol

Yn dilyn cais gan aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn y cyfarfod blaenorol, rhoddodd MJP y wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau llywodraethu rhanbarthol. Nodwyd y canlynol:

- Roedd grwpiau rhaglen a sefydlwyd o dan y Grŵp Gweithredol Integredig yn adlewyrchu'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Adroddwyd cynigion gan y grwpiau rhaglen hyn (er enghraifft, mewn perthynas â defnyddio cyllid allanol), i'r Bwrdd Gweithredol Integredig cyn i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol eu cymeradwyo, fel y bo'n briodol.
- Roedd y Bwrdd Gweithredol Integredig wedi parhau i gyfarfod yn wythnosol yn ystod y pandemig ac roedd wedi canolbwyntio dros y 12 mis diwethaf ar ymateb gweithredol ar y cyd i Covid-19 ochr yn ochr â goruchwyllo busnes craidd y Partneriaeth a defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Gronfa Drawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig.
- Oherwydd pwysau gwasanaeth, roedd y grwpiau rhaglenni Digidol a TEC a Chymunedau Cysylltiedig wedi'u hatal dros dro, wrth i drafodaethau barhau ynghylch rhesymoli trefniadau llywodraethu iechyd meddwl, gyda'r nod o gryfhau cysylltiadau â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Byddai'r Grŵp Digidol a TEC yn cael ei ailgynnull yn fuan, gyda goruchwyliaeth o ddatblygu strategaeth teleofal a theleiechyd ranbarthol a datblygu systemau a rennir, gan gynnwys System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

Ochr yn ochr â'r uchod, dywedodd MJP fod y Sefydliad Gofal Cyhoeddus yn darparu cymorth ar gyfer adolygiad cyflym o'r trefniadau llywodraethu gyda'r nod o ddatrys materion sy'n weddill a chryfhau atebolrwydd ymhellach; byddai'r adolygiad hwn hefyd yn cynnwys adolygu cylch gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'r Bwrdd Gweithredol Integredig a datblygu protocol ar gyfer gwell cydweithio rhwng y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'r BGC, gan gyfuno'r trefniadau cydweithio presennol. Byddai diweddariad yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf i'w ystyried gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

Yn olaf, rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol fod trafodaethau archwiliadol ar y gweill ynghylch y posibilrwydd o sefydlu bwrdd sicrwydd amlasiantaethol, gan gynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r partneriaid statudol a goruchwyllo gweithgarwch, prosesau a gwariant Partneriaeth. Unwaith eto, byddai rhagor o fanylion yn cael eu cyflwyno i'r BCA wrth i'r trafodaethau gael eu datblygu.

Diolchodd y Cynghorydd AW i MJP am y gwaith a oedd yn cael ei wneud a gofynnodd am gyfeiriad penodol o fewn trefniadau llywodraethu craffu awdurdodau lleol. Cytunodd MP i sicrhau yr eir i'r afael â hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd TH a oedd trafodaethau blaenorol ynghylch creu grŵp yn cynnwys arweinwyr cyngorau a phrif weithredwyr wedi'u datblygu. Dywedodd MP y byddai IPC yn ailedrych ar y cynnig hwn fel rhan o'u hadolygiad cyflym. Cytunwyd ar bwysigrwydd osgoi sawl haen o wneud penderfyniadau.

Nododd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gynnwys y papur.

5. Diweddariad am y Gronfa Gofal Integredig

Rhoddodd KN y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a dywedodd y byddai'r gweithgarwch a'r alldro ariannol mewn perthynas â Chynllun Buddsoddi Refeniw 2020-21 yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar 29 Ebrill cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Gofynnwyd i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol nodi lefel uchel o hyder y byddai gwariant llawn yn cael ei gyflawni ar draws grwpiau poblogaeth.

Cyflwynwyd Cynllun Buddsoddi Refeniw 2021-22 i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar ôl i'r Bwrdd Gweithredol Integredig ei gymeradwyo ar 8 Mawrth. Dywedwyd wrth y Bwrdd fod gwybodaeth ategol wedi'i chyflwyno i gefnogi'r cynigion, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn y canllawiau cenedlaethol ac argymhellion penodol yn yr Archwiliad Mewnol diweddar o Lywodraethu Partneriaeth y Gronfa Gofal Integredig a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Nododd yr Aelodau fod cynnig ar gyfer model gofal amlasiantaethol sy'n seiliedig ar drawma sy'n darparu cymorth cofleidiol gyda mewnbwn therapiwtig i blant a phobl ifanc wedi'i gyflwyno gan y Partneriaeth, yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru o £2m o fewn Cronfa Gofal Integredig 2021-22 i gefnogi cynlluniau sy'n darparu llety diogel i blant a phobl ifanc ag anghenion sylweddol. Roedd disgwyl adborth mewn perthynas â hyn. Dywedwyd wrth y swyddogion hefyd fod ymgynghorwyr allanol wedi'u penodi i weithio gyda phartneriaid ar ddatblygu strategaeth dementia ranbarthol a'r adolygiad cynhwysfawr o'r buddsoddiad presennol o'r Gronfa Gofal Integredig mewn perthynas â dementia. Byddai hyn yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai a byddai'r elfen dementia o'r Cynllun Buddsoddi Refeniw yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ar y dyddiad diweddarach hwnnw.

Cymeradwyodd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol y Cynllun a nododd y byddai crynodeb â thema yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth.

O ran rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig, rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol fod Llywodraeth Cymru wedi diwygio ei sefyllfa flaenorol yn diystyru rheoli rhaglenni (cario ymlaen yn ei hanfod) o gronfeydd dros ben o 2020-21 i 2021-22 ac wedi cadarnhau y byddai hyn yn cael ei ganiatáu lle'r oedd rhaglenni presennol wedi'u datblygu'n briodol ac y byddent yn cael eu darparu yn y flwyddyn ariannol i ddod. Roedd y newid hwn yn golygu bod y tanwariant a ragwelir wedi gostwng yn sylweddol i £700K. Roedd rhaglen Gyfalaf 2021-22 yn cael ei datblygu

gan bartneriaid a byddai'n cael ei chymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ar 29 Ebrill.

Cynghorodd MJP yr aelodau yn fyr o ddiben a chynnwys y Cytundeb Ysgrifenedig a oedd yn un o ofynion Llywodraeth Cymru ac a oedd yn nodi manylion am sut y buddsoddwyd y Gronfa yn y rhanbarth a threfniadau llywodraethu, monitro ac adrodd. Nodwyd mai ychydig iawn o newidiadau o'r Cytundeb a oedd ar waith ar gyfer y Flwyddyn Ariannol bresennol. Cymeradwywyd y Cytundeb mewn egwyddor, gyda phartneriaid yn cytuno i gael cymeradwyaeth leol gan eu hasiantaethau unigol yn ôl yr angen.

6. Y Papur Gwyn 'Ailgydbwysu Gofal a Chymorth': Ymateb drafft y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Atgoffodd MJP yr aelodau mai'r dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn oedd 6 Ebrill. Lluniwyd yr ymateb drafft a rennir gydag aelodau i adlewyrchu negeseuon allweddol a fynegwyd yn y cyfarfod diwethaf ac wedyn gan gydweithwyr a oedd yn ymwneud â'r trafodaethau manwl a orfodwyd gan y Bwrdd. Pwysleisiodd yr ymateb bwysigrwydd gweledigaeth ac ymrwymiad a rennir i gydweithredu fel sylfeini gweithio mewn partneriaeth effeithiol, yn hytrach na newid strwythurol a chreu Byrddau Partneriaeth Ranbarthol fel endidau cyfreithiol fel yr awgrymwyd yn y Papur Gwyn. Byddai gan newid o'r fath oblygiadau yn unigol ac ar y cyd i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Yn yr ymateb drafft, tynnwyd sylw at y cyfle i fyfyrion ar y berthynas rhwng y Byrddau Cydweithredol Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys sail cyllid ar ôl 2022, y gwnaed yr achos dros ymreolaeth bellach mewn perthynas ag unrhyw beth.

Codwyd y pwyntiau canlynol wrth drafod:

- Gofynnodd y Cynghorydd AW am gyfeiriad penodol at ddatganoliaeth yn yr ymateb i Gwestiwn 3. Roedd angen pwysleisio pwysigrwydd democratiaeth ac atebolrwydd lleol yn gryfach.
- Roedd diffyg eglurder ynghylch manylion y cynigion mewn perthynas â chomisiynu yn gwneud ymateb a sylwadau ystyrion yn anodd. Ni chafodd darpariaeth ddeddfwriaethol benodol mewn perthynas â Gofal Iechyd Parhaus a Gofal Nyrsio a Ariennir ei hadlewyrchu yn y ddogfen ymgynghori.
- Ystyriwyd bod naws y Papur Gwyn yn dechnegol ac wedi'i hanelu at gynulleidfa broffesiynol yn hytrach na chynulleidfa 'leyg'.
- Roedd diffyg eglurder ynghylch rhai o'r cynigion craidd yn y papur yn bryder, gyda'r posibilrwydd o ddryswch ynghylch disgwyliadau. I'r gwrthwyneb, teimlwyd bod angen nodi amheuan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn glir iawn.
- Roedd y canolbwynt ar ffurf yn hytrach na swyddogaeth hefyd yn bryder.

Yng ngoleuni'r drafodaeth, cytunwyd bod angen diwygiadau pellach i'r ymateb drafft. Gofynnwyd am unrhyw sylwadau ychwanegol erbyn 19 Mawrth. Yn dilyn trafodaeth bellach a chymeradwyaeth gan y Bwrdd Gweithredol Integredig, byddai'r

Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn gofyn am gymeradwyaeth rithwir cyn ei chyflwyno.

7. Maniffesto Drafft y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol

Atgoffodd JH yr aelodau o'r argymhelliad a ddeilliodd o'r sesiynau datblygu ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol a'r Bwrdd Gweithredol Integredig ddiwedd 2020 y dylid datblygu maniffesto, gan nodi egwyddorion craidd a rhoi manylion am yr hyn a fyddai'n cael ei gyflwyno dros y ddwy flynedd nesaf. Cymerodd MJP yr aelodau drwy ymrwymadau allweddol drwy ystod o grwpiau poblogaeth, a awgrymwyd fel sail i'r ddogfen.

Croesawyd y dull yn gyffredinol, er i'r sylwadau canlynol gael eu gwneud:

- Teimlwyd bod angen cynnwys pobl ag awtistiaeth fel grŵp poblogaeth penodol.
- Dylid cynnwys materion ehangach megis lleihau ôl troed carbon a darpariaeth wledig hefyd.
- Nodwyd nad oedd tai wedi'i gynnwys ar hyn o bryd ac o ystyried rôl tai wrth gefnogi'r agenda gofal, dylid ailystyried hyn.
- Roedd angen gwneud rhagor o waith ar egluro'r hyn y gellir ei gyflawni a chanlyniadau, wedi'i gefnogi gan fesurau priodol. Byddai hyn yn hwyluso monitro effeithiol gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

Byddai fersiwn arall o'r maniffesto, sy'n adlewyrchu'r sylwadau hyn, yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol.

8. Cyflyrau Sbectwm Awtistiaeth Datblygiadau Strategol a Gweithredol Cenedlaethol, gan gynnwys Diweddariad Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gorllewin Cymru

Roedd aelodau o'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn bresennol ar gyfer yr eitem hon ynghyd â Bethan Roberts, arweinydd Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gorllewin Cymru a Julie Annetts o Lywodraeth Cymru. Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cydweithwyr hyn. Wedyn rhoddodd WT drosolwg o'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol a'i flaenoriaethau. Roedd y pwyntiau a drafodwyd yn cynnwys effaith COVID-19 a chreu hwb gwybodaeth newydd mewn ymateb i'r pandemig ar gyfer darparu cymorth a chynghor wedi'u targedu.

Wedyn rhoddodd JA drosolwg o'r Côt Ymarfer Awtistiaeth newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru a'i oblygiadau i bartneriaid. Cyfeiriodd hefyd at adolygiad o'r galw a'r capasiti a oedd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd gyda'r gwasanaethau niwroddatblygiadol i blant a'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig ledled Cymru i nodi arferion da, pwysau, galw a'r gallu i ateb y galw hwnnw. Byddai'r adolygiad yn cymryd blwyddyn gan ddisgwyl argymhellion yn ystod haf 2022.

Cadarnhaodd JA, o ystyried y pwysau sylweddol a wynebier ar hyn o bryd gan wasanaethau ar draws pob rhanbarth, fod disgwyl i'r Côt Ymarfer gael ei weithredu'n 'ysgafn' yn y flwyddyn gyfredol.

Mewn ymateb i'r cyflwyniadau, awgrymodd MJP fod sylfeini sylweddol ar waith yng Ngorllewin Cymru i adeiladu arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys (1) bod rôl hyrwyddwr awtistiaeth ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, (2) adolygiad cyfredol o lywodraethu ar gyfer awtistiaeth i gryfhau goruchwyliaeth strategol o'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig a'r gwasanaethau awtistiaeth yn fwy cyffredinol, (3) bod hyfforddiant yn cael ei wneud ar oblygiadau'r Côt Ymarfer ar draws asiantaethau partner a (4) ymrwymiad i ychwanegu at y ffocws ar awtistiaeth o fewn yr Asesiad Poblogaeth nesaf.

Rhannodd BR ddata mewn perthynas ag asesiadau diagnostig Awtistiaeth yn y rhanbarth. Nid oedd yn bosibl ateb pob galw ar hyn o bryd, ond roedd llwybrau a strwythurau cadarn ar waith. Dau ddarn allweddol o waith, a ddatblygwyd gan y NAT mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, oedd cynhyrchu pecyn dysgu allweddol ar gyfer staff gofal sylfaenol a chynllun peilot gyda CAMHS arbenigol.

9. Dyddiad y cyfarfod nesaf

29 Ebrill 2021, 2.30PM

10. Unrhyw Fater Arall

Nid oedd dim.

CAMAU GWEITHREDU

Rhif	Gweithred	Arweiniol	Amserlen	Cynnydd	Statws
10/20/01	Datblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â meysydd i'w gwella KPMG (HWW) a'u cyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol	MJP	Chwefror 2021	Cyflwyno'r cynllun yn y cyfarfod ar 11 Chwefror CWBLHAWYD	
10/20/02	Ailymgynnull Fforwm y Gronfa Gofal Integredig	MJP	Nid yw wedi'i nodi;	Cyfarfodydd misol wedi'u hailgyflwyno CWBLHAWYD	
10/20/03	Cwrdd â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i drafod dull o gynnal Asesiad Poblogaeth	MJP	Nid yw wedi'i nodi;	Disgwylir arweiniad Llywodraeth Cymru. Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Ebrill 2021 CWBLHAWYD	
02/21/01	Cadarnhau safbwynt rhanbarthol ynghylch cais Mabwysiadwr Cynnar ar gyfer Fframwaith EHES	Grŵp Plant Rhanbarthol	Chwefror 2021	'Cais' am statws Mabwysiadwr Cynnar wedi'i gyflwyno; yn aros am benderfyniad CWBLHAWYD	
02/21/02	Cymeradwyo a chyflwyno Cynlluniau Cyflenwi Gorllewin Cymru Iachach ar gyfer 2021-22 i Lywodraeth Cymru	Bwrdd Gweithredol Integredig	Canol mis Chwefror 2021	Cyflwynwyd ar 15 Chwefror 2021 CWBLHAWYD	
02/21/03	Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am wariant y Gronfa Gofal Integredig o ran gofalwyr	KN	18 Mawrth 2021	Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu ar 18 Mawrth CWBLHAWYD	
02/21/04	Enwebiadau ar gyfer grŵp gorchwyl a gorffen i ddrafftio ymateb y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i ymgynghoriad Papur Gwyn	Pob un	Canol mis Chwefror 2021	Byddai ymateb drafft yn cael ei ystyried ar 18 Mawrth	
03/21/1	Adrodd ar ddiwygiadau terfynol i'r strwythur llywodraethu a chyflwyno cylch gorchwyl	MJP	29 Ebrill 2021	Gohirio cyfarfod mis Gorffennaf	

Rhif	Gweithred	Arweiniol	Amserlen	Cynnydd	Statws
	diwygiedig i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ei ystyried				
03/21/2	Dod â rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ei chymeradwyo	MJP	Ebrill 2021	Rhaglen yn anghyflawn. Dosbarthu ar gyfer cymeradwyaeth rithwir Mai 2021	
03/21/3	Dod â maniffesto wedi'i ddiweddarau i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ei gymeradwyo	MJP	Gorffennaf 2021		
03/21/4	Sylwadau erbyn 19 Mawrth i ymateb ymgynghoriad y Papur Gwyn i'w gynnwys mewn drafft wedi'i ddiweddarau.	Pob un	19 Mawrth 2021	CWBLHAWYD	
03/21/5	Ymateb i ymgynghoriad y Papur Gwyn i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru	MJP	Ebrill 6	CWBLHAWYD	